**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A470 A'R A40 (ABERHONDDU, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A470 a'r A40 yn Aberhonddu, Powys, neu gerllaw iddynt.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A470 a'r A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 25 Medi 2026. Disgwylir i'r gwaharddiadau dros dro weithredu fel a ganlyn:

- yr A470 – dros nos (18:30 – 06:30 o'r gloch) rhwng 28 Medi a 3 Hydref 2026;
- yr A40 – yn ysbeidiol o 18:30 o'r gloch ar 25 Medi hyd at 06:30 o'r gloch ar 28 Medi 2026 a 18:30 o'r gloch ar 2 Hydref hyd at 06:30 o'r gloch ar 5 Hydref 2026, neu hyd nes y bydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A470 & A40 TRUNK ROADS (BRECON, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 and A40 trunk roads at Brecon, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A470 and A40 trunk roads specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described therein.

The Order comes into force on 25 September 2026. The temporary prohibitions are expected to operate as follows:

- A470 – overnight (18:30 – 06:30 hours) from 28 September to 3 October 2026;
- A40 – intermittently from 18:30 hours on 25 September until 06:30 hours on 28 September 2026 and 18:30 hours on 2 October until 06:30 hours on 5 October 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the periods specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

1. Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 370 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â King's Meadow, Aberhonddu hyd at bwynt 40 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Chylchfan Tarell yr A40, Aberhonddu, Powys.

<u>Y llwybr arall</u>

Y llwybr arall ar gyfer traffig yr A470 sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A470 tua'r de i Ferthyr Tudful, yr A465 tua'r dwyrain i'r Fenni a'r A40 tua'r gorllewin i Aberhonddu: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

2. Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Tarell yr A40 hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Tarell yr A40, Aberhonddu, gan gynnwys system gylchu'r gylchfan honno.

<u>Y llwybr arall</u>

Y llwybr arall ar gyfer traffig yr A40 sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar yr A470 tua'r gogledd i Lanfair-ym-Muallt, yr A483 tua'r de-orllewin i Lanymddyfri a'r A40 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Yn ystod pob cyfnod cau, dylai traffig nad yw'n draffig cerbydol aros wrth y mannau cau hyd nes y gellir eu hebrwng neu eu cyfeirio'n ddiogel drwy safle'r gwaith.

**SCHEDULE**

1. The length of the A470 trunk road that extends from a point 370 metres south-west of the centre-point of its junction with King's Meadow, Brecon to a point 40 metres south of the centre-point of its junction with the A40 Tarell Roundabout, Brecon, Powys.

<u>Alternative route</u>

The alternative route for northbound A470 traffic is via the southbound A470 to Merthyr Tydfil, eastbound A465 to Abergavenny and westbound A40 to Brecon: vice versa for southbound traffic.

2. The length of the A40 trunk road that extends from its junction with the south-eastern side of the A40 Tarell Roundabout to a point 100 metres north-west of the centre-point of the A40 Tarell Roundabout, Brecon, including the gyratory of that roundabout.

<u>Alternative route</u>

The alternative route for westbound A40 traffic is via the northbound A470 to Builth Wells, south-westbound A483 to Llandovery and eastbound A40: vice versa for eastbound traffic.

For all closures, non-vehicular traffic should wait at the closure points until they can be safely escorted or directed through the works site.